Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

7 Mawrth 2017

Annwyl Vaughan,

**Gwaith dilynol i dystiolaeth a gafwyd ar 18 Ionawr 2017**

Diolch i chi am eich dau lythyr a oedd yn ymateb cynhwysfawr a defnyddiol i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd i chi gan y Pwyllgor yn dilyn eich tystiolaeth ar 18 Ionawr 2017. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Aelodau, mae dau faes lle mae angen rhagor o eglurhad  i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i raglen waith.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)**

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth yn benodol am y targedau asesu ar gyfer y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP). Mae dau darged o fewn y set ddata hon:

– Bydd pob asesiad CAMHS arbenigol brys yn cael ei gynnal o fewn 48 awr.

– Bydd pob asesiad CAMHS arbenigol rheolaidd yn cael ei weld o fewn 28 diwrnod.

Ym mis Tachwedd 2016, rhoddodd Carol Shillabeer wybod i'r Pwyllgor fod yr holl fyrddau iechyd lleol erbyn hyn yn cyrraedd y targed 48 awr ar gyfer asesiadau brys a bod pob un wedi cadarnhau y bydd yn cyrraedd y targed 28 diwrnod ar gyfer asesiadau rheolaidd erbyn mis Ebrill 2017. Nodwn ar hyn o bryd nad yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data fel mater o drefn ar y targedau hyn ar ei gwefan StatsCymru. Byddai'r Pwyllgor yn hoffi cael y wybodaeth ganlynol:

– pryd y bydd y data ar gael;

– lle y bydd y data yn cael ei gyhoeddi; a

– sut y bydd y data yn cael ei gyhoeddi.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r data mwyaf diweddar ar y targedau asesu.

**Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'n fawr eich cynllun i gyhoeddi'r fframwaith mewn lleoliad ysgol. Fodd bynnag, hoffwn ofyn i chi roi dyddiad pendant i ni ar gyfer y cyhoeddiad, neu os bydd yn bosibl, ganiatáu i'r Pwyllgor gael mynediad i'r fframwaith dan embargo. Mae'n hanfodol bod gan y Pwyllgor ddarlun clir o gynllun y Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion. Bydd hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith craffu ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yr ydym yn ei wneud.

Edrychaf ymlaen yn fawr at gael y wybodaeth ychwanegol hon oddi wrthych.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd